Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

electoral administration
bulletin




Rhifyn 377 (Cymru) – 10 Gorffennaf 2024

## Etholiad Cyffredinol Senedd y DU Gorffennaf 2024: Neges gan y Comisiwn

Mae cynnal etholiad cyffredinol yn dasg sylweddol. Er clod i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol), Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac ymrwymiad a phroffesiynoldeb eu timau y cyflwynwyd yr etholiad yn llwyddiannus ar fyr rybudd.

Ar y cyfan, ein hasesiad cychwynnol yw bod y diwrnod pleidleisio wedi rhedeg yn esmwyth a bod pobl wedi gallu bwrw eu pleidleisiau'n ddiogel. Mae'r ffocws nawr ar wleidyddiaeth a'r canlyniadau ac nid ar y broses o redeg yr etholiad, a dyna yn union sut y dylai fod.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r pwysau parhaus ar weinyddwyr etholiadol wrth gynnal etholiad cyffredinol o fewn y fframwaith cyfredol, a gwyddwn fod yna achosion lle na dderbyniodd etholwyr y safon gwasanaeth y byddem i gyd eisiau iddynt ei gael.

Byddwn nawr yn casglu tystiolaeth gan bobl sydd wedi cymryd rhan yn yr etholiadau hyn fel pleidleiswyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr, er mwyn deall eu profiadau yn well ac i lywio ein hadrodd ar ôl yr etholiad. Bydd hyn yn ein galluogi i adolygu'r etholiad yn llawn ac ystyried unrhyw argymhellion - p'un ai i ni, llywodraethau neu'r gymuned etholiadol - a allai wella'r broses yn y dyfodol.

## Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: ID Pleidleisiwr a chasglu data gweinyddol

Mae ein porth data bellach yn fyw ar gyfer cyflwyno dwy set o ddata:

- Data sy'n gysylltiedig ag ID pleidleisiwr (dyddiad cau: Dydd Gwener 19 Gorffennaf)
- Data gweinyddol craidd (dyddiad cau: Dydd Gwener 16 Awst)

Y
Comisiwn
Etholiadol

## Cynnwys

**Neges etholiad cyffredinol Senedd y DU** - pwyso a mesur etholiad a gynhaliwyd yn dda.

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: Casglu data ac adborth**
Mae ein porth data ar agor, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth wrth gasglu data ar gyfer ein hadrodd ar Etholiad Cyffredinol Senedd y DU.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

Mae manylion llawn y data y gofynnir amdano ar gael yma. Mae yna hefyd ganllawiau i ddefnyddwyr ar gyfer y porth a thaenlen y gellir ei defnyddio i gyfansymio'r data gorsafoedd pleidleisio ar ID pleidleisiwr. Dylech nawr allu mewngofnodi i'r porth data i lenwi data.

Dylech hefyd fod wedi derbyn e-bost ar ddydd Gwener 5 Mehefin i'ch cyfeiriad e-bost gwasanaethau etholiadol gyda manylion ar sut i fewngofnodi/ailosod eich cyfrinair. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gasglu data, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

**Etholiad Cyffredinol Senedd y DU: casglu adborth**

Mae gennym nifer o arolygon byw sydd wedi'u cynllunio i gasglu adborth gan y rhai sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar yr etholiad. Mae hon yn dystiolaeth bwysig i lywio ein hadrodd ar yr etholiad.

Arolwg staff gorsafoedd pleidleisio

Cawsom ymateb anhygoel i'n harolwg ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2024 gyda dros 21,000 o ymatebion – dim ond oherwydd y timau gweinyddu etholiadol a dynnodd sylw at yr arolwg a'i rannu â staff eu gorsafoedd pleidleisio y bu hynny'n bosibl.

Mae'r arolwg ar-lein, a gellir rhannu'r ddolen isod gyda'ch staff yng ngorsafoedd pleidleisio Etholiad Cyffredinol Senedd y DU:

https://eu.research.net/r/UKPGE24PollingStationStaff?lang=cy

Fel ym mis Mai, byddwn yn gallu rhannu canlyniadau gydag awdurdodau lleol sydd â diddordeb lle cawn ymatebion yn yr ardaloedd hynny.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

Adborth gan weinyddwyr etholiadol

Hoffem hefyd gael adborth gan weinyddwyr a Swyddogion Canlyniadau. Gellir dod o hyd i'r arolwg yma a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau yw 12 Awst 2024.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg adborth cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

**Arolwg Ymgeiswyr**

Yn olaf, mae gennym hefyd arolwg ar gael i ymgeiswyr. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth hanfodol i ni am yr heriau maent yn eu hwynebu, gan gynnwys eu profiadau o aflonyddu a chamdriniaeth.

Rydym yn cysylltu ag ymgeiswyr yn uniongyrchol lle mae gennym gyfeiriad e-bost, ond gwyddwn nad ydym yn cyrraedd pawb.

Os gallwch rannu'r arolwg gydag ymgeiswyr yn eich ardal, byddai hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae'r arolwg ar gael yma:

https://eu.research.net/r/UKPGE24CandidateSurvey?lang=cy

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Llawr 3, Tŷ James William
9 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd
CF10 3BD
Ffôn: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2024